Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Unpublished

YSTADEGAU, DOGFENNU

# Incwm aelwydydd crynswth i'w wario rhanbarthol: 2022

Mae gwybodaeth faint o arian sydd ar gael gan unigolion yn y sector aelwydydd ar gyfer gwario neu gynilo ar ôl i fesurau dosbarthiad incwm ddod yn weithredol ar gyfer 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 5 Medi 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 5 Medi 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/incwm-aelwydydd-crynswth-iw-wario-rhanbarthol-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

[Cyflwyniad]

[Prif bwyntiau]

[Gwybodaeth bellach]

[Manylion cyswllt]

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/incwm-aelwydydd-crynswth-iw-wario-rhanbarthol-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyflwyniad

Mae'r data diweddaraf yn yr adroddiad hwn yn berthnasol i 2022, ac yn cael eu cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Effeithiodd pandemig y coronafeirws (COVID-19) ar gydrannau GDHI yn wahanol ac adlewyrchir hyn mewn rhai symudiadau anarferol yn y data ar gyfer 2020 a 2021, yn enwedig wrth edrych ar ardaloedd daearyddol llai.

## Prif bwyntiau

- Roedd cyfanswm incwm gwario gros aelwydydd (GDHI) yng Nghymru yn 2022 yn £58 biliwn, cynnydd o 4.4% o'i gymharu â 2021. Cynyddodd cyfanswm GDHI y DU 6.3% dros yr un cyfnod i £1,541 biliwn.
- Roedd GDHI yng Nghymru yn £18,652 y pen yn 2022, 81.8% o ffigur y DU, i lawr 1.4 pwynt canran o'i gymharu â'r DU yn 2021.
- Roedd GDHI y pen yng Nghymru yn 2022 y ail isaf o blith gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr.
- Rhwng 2021 a 2022 gwelodd Cymru'r cynnydd canrannol lleiaf o'i GDHI y pen o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, i fyny 3.5%, o'i gymharu â chynnydd o 5.3% ar gyfer y DU. Gwelwyd y cynnydd uchaf yn Ne Orllewin Lloegr (i fyny 6.1%).

Yn flaenorol, roedd diffyg parhad yn nata'r boblogaeth ar gyfer rhai ardaloedd, a achoswyd gan wahaniaethau yn amseriad diweddariadau'r cyfrifiad. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi diweddaru amcangyfrifon poblogaeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/incwm-aelwydydd-crynswth-iw-wario-rhanbarthol-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

holl wledydd y DU i gynnwys amcangyfrifon wedi'u seilio ar gyfer y blynyddoedd rhwng y cyfrifiadau (2012 i 2020 yng Nghymru a Lloegr a 2012 i 2021 yn yr Alban). O ganlyniad, nid oes unrhyw anghysondeb bellach yn amcangyfrifon y boblogaeth yn y datganiad hwn.

**Mae data ar gyfer ardaloedd daearyddol is (gan gynnwys awdurdodau lleol) ar gael ar wefan y SYG**.

## Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg y data a ddefnyddir yn y pennawd hwn, gweler **adroddiad gwybodaeth am ansawdd a methodoleg Incwm Cartrefi Gros Rhanbarthol y SYG**.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Joe Davies
E-bost: **ystadegau.marchnadlafur@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/incwm-aelwydydd-crynswth-iw-wario-rhanbarthol-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/incwm-aelwydydd-crynswth-iw-wario-rhanbarthol-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.